Ysgol Gronant
Nant y Gro
Gronant
Ger Prestatyn
Sir y Fflint
LL19 9YP

10/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gronant yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad gyda disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu disgyblion hŷn i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu fframwaith defnyddiol ar draws y ffederasiwn i gefnogi datblygiad cynyddol ym medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.

- Mae darpariaeth i ddatblygu disgyblion iau yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol yn datblygu'n dda. Mae'r gwaith hwn yn gosod sylfeini pwysig ar gyfer datblygu ymddygiad dysgu disgyblion yn gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgolion.

- Trwy gwricwlwm meddylgar a phynciau difyr, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol o'u mannau cychwyn unigol.

- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall diben eu dysgu. Maent yn esbonio'n glir sut maent yn defnyddio eu medrau wrth gydweithio â disgyblion eraill i gwblhau tasgau.
- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'r hyn y maent yn ei wybod eisoes i'w helpu i oresgyn heriau newydd. Maent yn defnyddio waliau gweithio yn yr ystafelloedd dosbarth yn briodol i'w helpu i alw dysgu blaenorol i gof.
- Mae lleiafswm o ddisgyblion yn ymddieithrio rhag eu gwaith ar adegau yn ystod gwersi. Nid ydynt yn cynnal eu hymdrech bob tro ac mae hyn yn cyfyngu ar rediad eu gwaith a'u cynnydd cyffredinol.
- Mae arweinwyr wedi nodi'n briodol yr angen i ddatblygu effeithiolrwydd holi athrawon ymhellach i gefnogi disgyblion i ddyfnhau eu meddwl a'u helpu i fynd i'r afael â chamsyniadau.

## Gwella ansawdd adborth ar gyfer disgyblion hŷn

- Mae uwch arweinwyr wedi cydweithio â staff yn bwrpasol i ddatblygu dull graddedig o roi adborth i gefnogi dysgu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ystod o strategaethau, gan gynnwys defnyddio adborth llafar, hunanwerthuso ac asesiadau gan gymheiriaid.
- Mae staff yn datblygu effeithiolrwydd adborth sy'n cael ei roi yn ystod gwersi yn gyson. Mewn llawer o achosion, maent yn cynorthwyo disgyblion i fynd i'r afael â chamsyniadau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r adborth naill ai'n rhy hael neu'n rhy gyffredinol i fod o fudd.
- Caiff meini prawf llwyddiant eu defnyddio'n gyson gyda'r nod o gefnogi disgyblion i wella eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu agweddau syml ar waith disgyblion. Ar adegau, maent yn cynnwys gormod o feini prawf i fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi dysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn deall sut i wneud gwelliannau syml i'w gwaith, fel atalnodi a sillafu. Fodd bynnag, maent yn llai hyderus wrth ddeall sut i wella agweddau ehangach ar eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gref o sut i wella eu hysgrifennu, fel datblygu cyflwyniad i stori i ychwanegu mwy o ddiddordeb.
- Mae uwch arweinwyr yn monitro effaith adborth yn gywir ac yn cydnabod yr angen i wella ymhellach y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i gynnydd disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-gronant-cy/

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol